

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth

49%
YN WEITHGAREDDAU
LLAETH



1,673


O FFERMWYR
LLAETH WEDI
COFRESTRU
GYDA CYSWLLT
FFERMIO

Rhwydwaith Arddangos

Nantglas: Gwella ffrwythlondeb mewn buches sy'n lloia mewn dau floc

Mae cyfnod bridio'r rhan o'r fuches sy'n lloia yn y gwanwyn bellach wedi dod i ben i lwan yn fferm Nantglas. Eleni, roedd cyfradd ffrwythloni'r tair wythnos gyntaf yn 89%, sy'n dderbyniol o gofio mai 90% yw targed y diwydiant gan AHDB. Fe wnaeth 24 o blith y 92 o fuchod sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn ail-ofyn, ac felly, roedd cyfradd y buchod na wnaeth ail-ofyn yn 74% dros dair wythnos, a rhagwelid fod y gyfradd beichiogi ar ôl cael tarw am y tro cyntaf yn 64%. Rhagwelir fod cyfradd y buchod gwag yn 7.1%, sydd ymhell o fewn targed y diwydiant, sef llai na 10%. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y buchod yn cael eu sganio i gadarnhau'r rhagfynegiadau hyn.

Erw Fawr: Cynnyddu cynnyrch o'r borfa mewn buches sy'n lloia drwy gydol y flwyddyn



Hyd yn hyn eleni, mae cyfanswm tyfiant y glaswellt yn Erw Fawr wedi bod yn 8.8 tonnall o ddeunydd sych yr hectar ar gyfartaledd. Cafwyd amrywiaeth enfawr o ran cyfanswm tyfiant y glaswellt mewn gwahanol leiniau. Mae rhai o'r lleiniau sy'n perfformio orau wedi cynhyrchu bron iawn 15 tonnall fetrig o ddeunydd sych, ond ar y llaw arall, mae lleiniau eraill wedi cynhyrchu 7.5 tonnall fetrig yn unig. Bydd yr ymdrechion i fesur a chofnodi glaswellt yn fanwl yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar berfformiad caeau unigol, a bydd hynny'n caniatáu i gamau unioni effeithiol gael eu cymryd i wella caeau sy'n tanberfformio.



Effaith gwell defnydd o laswellt yn Erw Fawr

Un o brif nodau'r prosiect yn Erw Fawr yw cynyddu'r defnydd o laswellt a borir. Mae'r llawer o'r ffermydd gorau o safbwynt y defnydd o laswellt a borir yn sicrhau cyfradd defnydd sy'n fwy na 90%, ond ar y llaw arall, byddai rhai unedau stocio sefydlog yn cyflawni 50% yn unig, waeth faint fyddai cyfanswm y glaswellt a dyfir. Gan ddefnyddio rhagfynegiadau ynghylch tyfiant blynyddol glaswellt, byddai cynyddu'r gyfradd defnydd o 60% i 85% yn Erw Fawr yn golygu y byddai'r buchod yn bwyta gwerth £10,125 ychwanegol o ddeunydd sych o laswellt a borir, gan leihau'r defnydd o ddwysfwydydd a silwair drutach fel porthiant ychwanegol.

Bydd cymhareb costau dwysfwydydd, silwair a glaswellt a borir fel arfer yn dilyn cymhareb 3:2:1 o ran costau (£) fesul tonnall fetrig o ddeunydd sych.

Dwysfwyd
£240/tDM
Buches 1



Silwair
120/tDM
Buches 2



Glaswellt a borir
£60/tDM
Buches 2



Yn achos **Buches 1**, mae dogn y buchod yn seiliedig ar laswellt a borir, a rhoddir dwysfwydydd iddynt yn y parlwr godro i ychwanegu at hynny.

Yn achos **Buches 2**, mae dogn y buchod yn seiliedig ar silwair o ansawdd uchel, a rhoddir dwysfwydydd iddynt i ychwanegu at hynny.

Yn achos **Buches 3**, mae'r dogn yn seiliedig ar ddwysfwydydd a silwair, a cheir rhywfaint o bori yn ystod misoedd yr haf.

Gan ddefnyddio'r buchod lleiaf cynhyrchiol yn Erw Fawr fel enghraifft, mae'r dogn wedi bod yn seiliedig ar sefyllfa debyg i Fuches 1, ble defnyddir glaswellt a borir fel y brif gyfran o'r dogn, sef 17kg o ddeunydd sych fesul buwch yn ddyddiol, a rhoddir 5kg o ddeunydd sych i bob buwch yn ddyddiol trwy gyfrwng dwysfwydydd. Mae hyn yn golygu fod costau porthi, ar sail cost (£) pob kg o ddeunydd sych fesul buwch, yn isel, ac mae hefyd yn annog gwell ymddygiad pori gan y fuchod ac yn sicrhau fod y glaswellt yn aildyfu'n well. Yn yr enghraifft a ddangosir yn achos Buches 3, ble mae'r Dogn Cymysg Cyflawn (TMR) yn cynnwys cyfradd uwch o ddwysfwydydd a silwair o gymharu â glaswellt a borir, ni wnaiff hynny hwyluso ymddygiad pori da a defnydd effeithiol o borthiant, nac annog y glaswellt i aildyfu.

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)

Dull wedi'i dargedu o wneud penderfyniadau wrth reoli buchod sych



Yn y prosiect EIP hwn, mae'r ffermwyr yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf trwy gynnal profion gwahaniaethau lewcoct mewn llaeth (MLD) sy'n sganio samplau o laeth yn ficrosgopig. Mae'n gallu profi pob un o chwarteri'r anifail cyn hesbio i benderfynu a oes ar chwarteri unigol angen therapi gwrthfotig neu a ellid eu hesbio gan ddefnyddio seliwr tethi mewnol yn unig. Mae rhai o'r canlyniadau diweddaraf wedi dangos sut mae'r wybodaeth hon yn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau.

	Fferm 1 (ers Mehefin 2020)	Fferm 2 (ers Rhagfyr 2019)	Fferm 3 (ers Tachwedd 2019)
Buchod wedi'u sychu	44	160	125
Triniaeth a ddefnyddiwyd:			
Seliwr tethi yn unig	9	81	36
Gwrthfotigau a seliwr tethi	35	79	89
Buchod a fyddai wedi cael triniaeth seliwr tethi yn unig pe bai'r fferm wedi defnyddio'r cofnodion llaeth SCC yn unig	16	20	35

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- MWY O LAETH O FWY O BORTHIAINT
- YCHWANEGU GWERTH AT LAETH BUWCH
- MAE ANGEN DAU MEWN TANGO – PROFION GENOMIG AR WARTHEG BENYW
- SGORIO LLENWAD RWMEN I FONITRO IECHYD MEWN BUCHOD LLAETH
- GODRO ROBOTIG A LLES GWARTHEG

Grwpiau Trafod



Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 17

Astudiaeth Achos

Ymunodd Sam Fenemore o ProStock Vets gyda Grŵp Trafod y De Orllewin i drafod iechyd y fuches laeth, ac IBR yn benodol.

Cyn y cyfarfod, anfonodd y grŵp y canlynol:

- Canran y fuches bresennol a brynwyd i mewn i'r fferm ers 2015
- Nifer y daliadau y cafodd yr anifeiliaid eu prynu oddi arnynt dros y 5 mlynedd diwethaf
- Nifer y defaid a brynir i mewn neu sy'n pori ar ddaliad arall ers 2015
- IBR, BVD, Lepto, Johne's – a yw'r rhain wedi bod yn bresennol ar y fferm dros y 5 mlynedd diwethaf
- Statws TB

Gan ganolbwyntio ar y data a roddwyd, rhoddodd Sam bob fferm mewn categori risg isel, canolig neu uchel yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd. Dyma rai o'r meysydd risg a drafodwyd:


- Pori defaid gyda'i gilydd
- Contractwyr/rhannu offer
- Ffiniau
- Bywyd gwyllt
- Cyrsiau Dŵr
- SD/aer ffres/draeniad
- Staff/personel/milfeddygon/AI/ cynrychiolwyr gwerthu/ ymgynghorwyr
- Protocolau clefydau, isadeiledd y fferm, profi, cwarantîn

Yna, bu Sam yn amlinellu canlyniadau arbrawf a gynhaliwyd gan Ganolfan Filfeddygol Rhanbarthol Cymru sy'n nodi bod buchesi llaeth agored yn fwy tebygol o gael eu heintio gan glefydau heintus o'i gymharu â buchesu caeedig. Pwysleisiodd Sam eich bod yn fwy tebygol o allu sicrhau'r cynhyrchiant gorau a mwyaf effeithlon posibl drwy sicrhau nad oes unrhyw glefydau ar y fferm.

Bu'r drafodaeth yn parhau drwy edrych ar statws clefydau IBR, BVD, Lepto a Johne y grŵp, ynghyd â brechu, achrediaidau ac arfer dda, a ffyrdd o wella iechyd cyffredinol y fuches.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 78 o gymorthfeydd



Un o'r cymorthfeydd mwyaf poblogaidd fewn y sector llaeth yw'r cymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio. Mae nifer o fusnesau wedi bod yn ymchwilio'r syniad o werthu llaeth crai o beiriannau gwerthu'n uniongyrchol oddi ar y fferm.

Rhaglen Fentora

96 FFERMWR LLAETH yn cael ei fentora ar hyn o bryd.

Cliciwch yma i weld y Cyfeirlyfr Mentoriaid.

Gweminarau



Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- AGWEDDAU ECONOMAIDD AC YMARFEROL YN YMWNEUD Â MAGU HEFFROD LLAETH HOLSTEIN/ FRIESIAN AR FFERM DDEFAID AR YR UCHELDIR
- GWERTHUSO MANTEISION COFNODI LLAETH YN Y FUCHES SY'N LLOIA YN Y GWANWYN
- GWELLA FFRWYTHLONDEB MEWN SYSTEM SY'N LLOIA MEWN DAU FLOC
- DEWIS O LEININ: SUT I DDEWISY LEININ GODRO GORAU AR GYFER EICH BUCHES

Agrisgôp



Roedd themâu'r grwpiau yn cynnwys:



Busnes peiriannau gwerthu llaeth



Cadwyn gyflenwi llaeth

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Gweithdai a gynhaliwyd:

Deall celfyd Johne




Ymwrthedd i Wrthfotigau



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **44** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector Llaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant fesul categori



Cyfanswm fesul categori

Busnes Da Byw Tir

Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:


Ceisiadau

GYRRU TRYC CODI TELESGOPIG AR DIR GARW	5
DIY AI	15
TRIMIO TRAED GWARTHEG	4
DEFNYDDIO MEDDYGINIAETHAU MILFEDDYGOLYN DDIOGEL	11

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

SIEDIAU LLOI



CLOFFNI MEWN GWARTHEG



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.